


# MAWRTH 2026

## Darlleniad

**Ioan 14:15-19 & Luc 24:44-49**

*"Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth, Ysbryd y Gwirionedd." Ioan 14:16-17*

*"Arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth." Luc 24:49.*

## Myfyrdod

Pan oedd Iesu'n dod at ddiwedd Ei fywyd a'i weinidogaeth ar y ddaear, addawodd y **byddai'n anfon 'Eiriolwr arall' a fyddai gyda ni am byth** (rhai cyfieithiadau Saesneg: 'Helper'). Dyweddodd Iesu'r geiriau hyn pan oedd ar fin cael ei fradychu a'i drosglwyddo i'r awdurdodau adeg y Pasg, gan wybod y byddai ei ddisgyblion yn cael eu gadael gyda thorcalon a galar yn dilyn ei groeshoeliad. Pa bynnag tywyllwch yr ydym yn ei brofi yn y bywyd hwn - mor ryfeddol yw gwybod bod gennym addewid i ddal ymlaen iddi oddi wrth ein Harglwydd: y byddai'n rhoi **Ei Bresenoldeb ei hun i ni, Ei Ysbryd!** Wrth edrych ymlaen nawr at y digwyddiadau a ddilynodd ei farwolaeth a'i atgyfodiad, darllenwn sut y mae Iesu yn atgoffa'r disgyblion nes ymlaen am yr addewid hon: ond mae hefyd yn mynnu **eu bod yn ymateb**... trwy aros! *Pa mor hawdd (neu anodd?) ydyn ni'n darganfod disgwyl wrth Dduw?* Ymateb y disgyblion yw yn wir i aros.... ond ddim mewn stad ddiog, oddefol. Darllenwn sut y maent yn 'treulio eu hamser i gyd yn y deml yn moli Duw' (Luc 24:53), ac yn 'dyfalbarhau... mewn gweddi' (Actau 1:14). *Oes angen i ni ofyn i'r Arglwydd am ddyhead a llawenydd newydd i ddisgwyl wrtho mewn gweddi? Oes yna ardaloedd yn ein bywydau - neu weinidogaethau - ble y mae angen i ni ofyn i'r Arglwydd am lenwad newydd o'i Ysbryd?*

## Pwyntiau gweddi



**Plant a Phobl Ifanc**

- Diolchwn am waith plant ac ieuenctid arbennig mewn nifer o eglwysi ar draws Cymru. Diolchwn am waith arbennig ysgolion Sul lleol, clybiau ieuenctid, a gweinidogaethau cenedlaethol. Gweddïwn fendith ar bob gweithiwr plant, gweinidog ac aelod eglwys sydd yn rhannu'r newyddion da gyda phlant a theuluoedd yn eu cymunedau.
- Diolchwn am fenter ieuenctid Esgyn. Diolchwn am yr holl bobl ifanc sydd wedi dod i'r penwythnosau a digwyddiadau ers ei dechrau, a gweddïwn y byddant yn dod i adnabod rhywbeth o'r Arglwydd Iesu trwy'r cysylltiad. Gweddïwn am ddoethineb a nerth i'r tîm wrth iddynt stiwardio twf yng ngwaith Esgyn - yn enwedig wrth edrych at fuddsoddi mewn oedrannau hŷn

**Edrych Ymlaen**

- Wrth edrych ymlaen i dymor newydd fel teulu UBC, gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn ein nerthu fel eglwysi a Christnogion ar draws Cymru i barhau i'w geisio Ef fel ein blaenoriaeth a'n cariad cyntaf (Dat 2:4). Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn ein nerthu i barhau i 'geisio yn gyntaf Ei deyrnas' yng Nghymru! (Matt 6:33)

**Mwy** *o bwyntiau gweddi wythnosol a rhanbarthol penodol ar ein calendr gweddi + ar* ***ubc.cymru***

## Gweddi'r Mis

*Arglwydd, diolchwn i Ti*
*am yr hyn y cyflawnaist trwy Dy groes a'th atgyfodiad: am i Ti farw ac atgyfodi er mwyn ein cymodi ni gyda'r Tad - ac fel ein bod ni'n gallu cael dy Bresenoldeb gyda ni o hyd!*

*Diolchwn i Ti am dy Ysbryd - sydd yn rhoi bywyd newydd i ni, sydd yn ein trawsnewid ni, a sydd yn rhoi nerth i ni fod yn dystion i 'faddeuant pechodau' (Luc 24:47) i bob cenedl.*

*Gweddïwn y byddi Di'n cryfhau ein teulu o eglwysi ni yng Nghymru: y byddi Di'n ein cymell ni i ddisgwyl wrthyt Ti mewn gweddi, ac i dy geisio Di fel ein blaenoriaeth gyntaf. Gofynnwn i Ti ein llenwi ni o'r newydd gyda Dy Ysbryd.*

*Gofynnwn i Ti gryfhau pob crediniwr ac eglwys sydd yn ceisio rhannu'r efengyl gyda phlant a phobl ifanc - ac y byddi Di yn cwrdd â'r genhedlaeth newydd yng Nghymru mewn ffyrdd rhyfeddol a newydd yn ein hoes.*

**Yn Enw Nerthol Iesu, Amen.**